# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 8fed Ionawr 2024
Festri Capel Dinas

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Deio Williams,Gareth Jones, Chris Brady, Henry Hughes, John Davies, Alun Williams, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau: Alan Hughes, Catrin Williams

1. Cadeiriwyd gan Henry Hughes ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Bydd Chris yn anfon amcanbris i'r Clerc yn fuan.
   b. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cysylltodd y Clerc a'r cwmni e-geo Solution, cafodd ar ddeall fod y chwiliadau cyntaf wedi eu cwblhau au bod rwan wrthi'n ysgrifennu'r adroddiad, dylai hon gael ei hanfon atom o fewn yr wythnosau nesaf.
   c. **Traffic a'r lon yr ysgol –** Cysylltodd y Clerc ar adran Traffic, ond ni cachafwyd ymateb. Bydd y Clerc yn cysylltu eto.
   d. **Llwybyr yr arfordir –** Ni chafwyd ymateb hyd yma.
   dd. **Archwyliad Allanol –** Bydd y Clerc yn rhannu'r adroddiad.
   e. **Tyllau yn y lon ger Bryn Awel, Garfadryn –** Ni chafwyd ymateb hyn yma, bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran eto.
   f. **Pont Droed ger Felin Tudweiliog –** Ni chafwyd ymateb, bydd y Clerc yn cysylltu eto gyda'r Swyddogion.

4. Gohebiaeth:
   **a. Cais Cynllunio C23/0989/46/LL Fferm Plas,Llangwnnadl**

Dim gwrthwynebiad, ond y bydd angen (os yn bosib) gwneud asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg gan ein bod y ward wedi ddynodi'r ardal yn AAI (dwysedd uwch).

b. **Cais Cynllunio C23/1012/46/DT Cefn Amwlch -** Cefnogi
c. **Cais Cynllunio C23/1013/46/CR Cefn Amwlch -** Cefnogi
d. **Cais Cynllunio C23/1021/46/DT Hendregoed Cottage, Llaniestyn –** Dim Sylw
e. **Cyflog y Clerc –** Cafwyd caniatad i'w dalu.

5. Unrhyw Fater Arall:-

a. Cafwyd cwyn fod cyflwr y lon wrth Porth Colmon yn warthus a bod y ffos wedi disgyn – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.
b. Cafwud cwyn fod dwr yn rhedeg ar wyneb y ffordd ger Tyddyn Isaf gan redeg I lawr lon traeth Porthysgaden – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd gan ofyn os oes modd rhwystro hyn rhag digwydd.
c. Cafwyd ar ddeall fod 4 Cyngor Cymuned erbyn hyn wedi ymuno ar ymgyrch Ardal Dwysedd Uchel 'Perthyn'

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Chwefror 12ed 2024 am 7.30yh
Festri Capel Garnfadryn.